caru cymru
Gofalu am ein gwlad
Caring for Wales

Gwybodaeth ar gyfer Rheolwyr Hybiau Codi Sbwriel

cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

Diolch am gynnal Hyb codi sbwriel a helpu i wneud eich cymuned yn lle glanach a mwy diogel i fyw, chwarae a gweithio.

Dogfennau'r Hyb

I'ch helpu i reoli'r Hyb yn gywir, mae Cadwch Gymru'n Daclus wedi paratoi templedi ac adnoddau ichi eu defnyddio. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. **Ffurflen archebu** cyfarpar sy'n cynnwys gwybodaeth bwysig am ble a phryd y gall benthycwyr gasglu cyfarpar, ac erbyn pryd y mae angen ei ddychwelyd.
2. **Gwybodaeth iechyd a diogelwch** a chanllawiau ynghylch sut i gynnal digwyddiadau codi sbwriel (i'w lamineiddio a'u cadw yn y bag cyfarpar).
3. Templed ffurflen **asesiad risg**.
4. Gwybodaeth gyswllt yr awdurdod lleol - er mwyn trefnu digwyddiad codi sbwriel.
5. System **adrodd** electronig er mwyn rheoli data'r Hyb.
6. **Templed e-bost** sy'n cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Anfonwch hwn drwy e-bost at fenthycwyr, gofynnwch iddyn nhw ei lenwi a'i anfon yn ôl atoch drwy e-bost (nid oes angen ei argraffu).

D.S. Sicrhewch fod pob benthyciwr yn defnyddio'r ffurflen archebu. Mae hyn yn caniatáu i unrhyw un wybod a yw eich cyfarpar ar gael ac yn eich galluogi i ddilyn ei drywydd yn gywir.

Cyn gynted ag y dychwelir yr holl gyfarpar yn ddiogel, a'ch bod wedi cael a chofnodi data digwyddiad ar system eCyrfrif Cymru, SICRHEWCH EICH BOD YN DILEU / DINISTRIO POB COPI O'R FFURFLEN ARCHEBU.

Eich cyfarpar

Eitem	Nifer
Casglwyr sbwriel	
Cylchoedd	
Siacedi gweledd uchel	

(Nodwch y niferoedd a ddarparwyd gan Cadwch Gymru'n Daclus)

D.S. Darperir bagiau sbwriel coch Cadwch Gymru'n Daclus a bagiau ailgylchu yr awdurdod lleol hefyd.

Eich swyddog cyswllt Cadwch Gymru'n Daclus

Enw	
Rhif ffôn	
E-bost	

Eich cyswllt yn yr awdurdod lleol

Gweler eich cyswllt yn y cyngor ar gyfer trefnu digwyddiad codi sbwriel a bagiau ailgylchu newydd isod:

Enw	
Rhif ffôn	
E-bost	

Pwy fydd yn dymuno benthyg cyfarpar?

Unigolion, grwpiau, ysgolion, sefydliadau a busnesau.

Beth sydd angen ichi ei wneud?

Fel Rheolwr Hyb, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod yr Hyb yn cael ei rheoli'n gywir, bod benthycwyr yn gweithio'n ddiogel, bod data'n cael ei gasglu, a'ch bod chi'n gwybod ble mae'r cyfarpar bob amser.

Bydd angen ichi ofyn i bob benthyciwr:

1. **Lenwi'r ffurflen archebu yn llawn:** Bydd hyn yn sicrhau bod pob benthyciwr:
   a. Wedi cytuno ar ddyddiad ar gyfer casglu a dychwelyd y cyfarpar.
   b. Rhoi manylion cyswllt ichi fel y gallwch fynd ar drywydd unrhyw gyfarpar nad yw wedi ei ddychwelyd.
   c. Nodi ei fod wedi darllen a deall y canllawiau a ddarparwyd gan Cadwch Gymru'n Daclus ac y bydd yn dilyn cyfarwyddiadau i sicrhau eu bod yn trefnu ac yn cynnal digwyddiadau codi sbwriel yn ddiogel.
   ch. Cytuno i gysylltu â'r awdurdod lleol er mwyn trefnu digwyddiadau codi sbwriel.

2. Atgoffwch y benthycwyr fod yn rhaid iddyn nhw ddilyn yr holl **ganllawiau iechyd a diogelwch**, cynnal **asesiad risg** a chynnal **sesiwn friffio cyn y digwyddiad** (mae'r holl ddogfennau wedi eu cynnwys yn y bag coch).

3. Sicrhewch eu bod nhw'n **cysylltu â'r awdurdod lleol** os oes angen i'r sbwriel gael ei gasglu.

4. Casglwch **wybodaeth am y digwyddiad** fel y gallwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar eCyfrif Cymru (gweler mwy isod). Bydd angen ichi gasglu'r wybodaeth ganlynol gan fenthycwyr:

    - Nifer y gwirfoddolwyr
    - Nifer yr oriau a weithiwyd
    - Dyddiad y gweithgaredd
    - Nifer y bagiau a gasglwyd (bagiau cyffredinol ac ailgylchu)
    - Lleoliad y digwyddiad
    - Unrhyw broblemau a gafwyd

5. Gofynnwch i'r benthycwyr roi gwybod ichi os oes **problem** â'r cyfarpar a rhowch wybod i'ch Swyddog Cadwch Gymru'n Daclus cyn gynted â phosibl.

6. **Rhowch ddiolch i'r benthycwyr** am eu hymdrechion i helpu i wneud eu cymuned yn lle gwell.

Rheoli cyflenwadau eich cyflenwad o gyfarpar

Calendr papur / siart wal mae'n debyg yw'r ffordd hawsaf o ddilyn trywydd yr holl gyfarpar sydd ar fenthyg, ond gallwch ddefnyddio beth bynnag sy'n gweithio orau ar gyfer eich Hyb chi. Cofiwch ddangos y system i unrhyw un a allai chwarae rhan mewn dosbarthu cyfarpar o'ch Hyb.

Bob tro y mae pobl yn dymuno benthyg y cyfarpar, mae'n rhaid iddyn nhw lenwi'r ffurflen archebu. Mae'n rhaid iddyn nhw gytuno i ddychwelyd y cyfarpar mewn cyflwr da a rhoi gwybod ichi os oes unrhyw broblemau y gallwch eu trosglwyddo wedyn i'ch Swyddog Prosiect Cadwch Gymru'n Daclus lleol.

Sicrhewch eich bod yn cadw'r cyfarpar mewn man saff a diogel fel nad yw eitemau'n 'diflannu'.

Cyfrifwch y cyfarpar pan ddaw yn ei ôl i sicrhau y dychwelir yr holl eitemau a fenthycwyd.

Cofiwch mai eich gwaith chi yw sicrhau y dychwelir y cyfarpar, felly ewch ar drywydd unrhyw fenthyciwr nad yw wedi dychwelyd y cyfarpar ar y dyddiad a nodwyd.

Ble i gael bagiau bin newydd

Cadwch lygad ar gyflenwadau bagiau bin. Pan fydd eich cyflenwad o fagiau yn mynd yn brin, cysylltwch â'ch Swyddog Cadw Cymru'n Daclus lleol. Os yw eich bagiau ailgylchu'n mynd yn brin, cysylltwch â'ch cyswllt yn yr awdurdod lleol i gael rhagor.

Casglu data o ddigwyddiadau codi sbwriel

Swyddogaeth Rheolwr yr Hyb yw llwytho data y digwyddiad i **eCyfrif Cymru** pan ddychwelir y cyfarpar.

Mae eCyfrif Cymru yn ffurflen ar-lein syml. Nid oes angen unrhyw fanylion cyfrif na mewngofnodi, dim ond mynd i'r dudalen we **keepwalestidy.cymru/cy/ecyfrif-cymru** a rhoi enw eich Hyb a rhai manylion am y digwyddiad codi sbwriel.

Mae'n rhaid ichi lenwi'r manylion ar gyfer pob digwyddiad codi sbwriel fel y gallwn asesu effeithiolrwydd yr Hyb a gweld pa mor aml y mae'r cyfarpar yn cael ei ddefnyddio.

D.S. Os na chawn ddata, byddwn yn rhagdybio nad yw'r Hyb yn cael ei ddefnyddio ac yn ei symud i leoliad newydd. Cofiwch ddileu/dinistrio pob copi o'r ffurflenni archebu cyn gynted ag y bydd data'r digwyddiad wedi eu llwytho i eCyfrif Cymru.

DIOLCH YN FAWR am ddod yn bartner Hyb a chefnogi gwaith gwirfoddolwyr yn eich ardal. Mae croeso i chi gysylltu â Cadwch Gymru'n Daclus os oes gennych unrhyw broblemau neu os oes angen unrhyw gyngor arnoch.

#CaruCymru

caru cymru

Gofalu am ein gwlad
Caring for Wales